

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 197

Pris 80c

Mis Tachwedd 2017



Gwyrdd Eu Byd – ond am ba hyd?

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ymgynghorydd: Ann Lewis



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Golygydd Llundain: Mary Jones

Cynorthwy-ydd: Jan Penney **Digwyddiadur:** huwrowlands@mentercaerffili.cymru

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, a Bethan Jones Menter Caerffili

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn

e-bost: Golygydd@papurecwmni.cymru **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

Gwefan: mentercaerffili.cymru/ **Cwmni** 

Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

Oedfaon Mis Tachwedd Capeli Caerffili

Bedyddwyr Tonyfelin

5ed Bore a hwyr : Parch Milton Jenkins

12fed Bore a hwyr : Parch Milton Jenkins

19eg Yn Bethel

26ain 10.30 : I'w drefnu

6.00 : Parch Glyn Tudwal Jones

Annibynwyr, Bethel

5ed 10.30. Diolchgarwch

Eirwen Richards.

12fed 10.30. Gyda Tonyfelin.

4.00 Ymuno ym Methel ar gyfer
y daith i Benrhys.

19eg 10.30 a 6.00. Parch Dr. R Alun Evans.

26ain 10.30 Parch. Robin Samuel.

Capel y Groeswen

12bfed 3:00 o'r gloch Sul y Cofio

Mr Gordon Maslen

Hanes Cwm Ni

9/11/17 Yr Athro Bill Jones


Yr Ymfudo o Gymru i America yn
y bedwaredd ganrif ar bymtheg

7/12/17 Cwis Hanes Cymru

Cwis + swper; dewch â bwyd
i'w rannu

11/1/18 Gareth Williams

Thomas Picton. Arwr neu
ddihiryn?



Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702


Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrandu. Croeso i bawb.

Addas ar gyfer siaradwyr
**CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD**



Gwyrdd Ein Byd – Ond am Ba Hyd?

Siom aruthrol i drigolion tref ac ardal
Caerffili oedd clywed i Lesley Griffiths,



Ysgrifennydd y
Cabinet dros yr
Amgylchedd a
Materion
Gwledig
gymeradwyo
cais gan gwmni
Redrow i
adeiladu 260 o
dai ar gaeau
gwyrdd ar ochr
orllewinol ystâd
Hendredenni.

Gwnaed hyn er
gwaethaf y tagfeydd traffig sy'n bodoli o
fewn y dref a'i chyffiniau. Mae ciwiau hir o
gerbydau yn ymestyn i'r gogledd o gylchdro
Pwllypant bob bore, wrth i drigolion y
cymoedd deithio tua'r de. Mae'r ffaith fod y
ciw yma'n ymestyn mor bell yn ôl â
chylchdro'r Wingfield yn Llanbradach yn
cyfrif am y ffaith fod ceir nawr yn rasio
drwy bentref Llanbradach bob bore i osgoi'r
oedi. Tebyg yw Heol Pontygwindy ddiwedd
y prynhawn wrth i'r drafnidiaeth ymlwybro
yn ôl tua'r gogledd.

Yn y gorllewin mae trafndiaeth pentrefi
Abertridwr a Senghennydd yn gwrthio i
mewn i'r ciwiau sy'n ffurfio wrth i geir
chwydu allan o'r amryw ystadau ym
Mhenyrheol. Rhain i gyd yn ceisio cyrraedd
ffordd osgoi'r dref. Anodd iawn wedyn yw i
drigolion presenol Hendredenni ymuno â'r
ffrwd o ddur, rwber a mygdarth petrol.

Mae goleuadau traffig i hwyluso
ymdrechion modurwyr Hendredenni i
ymuno â'r ffrwd gystadleuol. Ond, mae'r
blwch melyn ar y gyffordd yn golygu na
allan nhw symud ymlaen pan dry'r
goleuadau yn wyrdd, gan na allant fynd i
mewn i'r gawell felen os nad oes modd
iddyn nhw ei gadael. Sut felly mae ceir 260
o dai ychwanegol (390 mwy o geir?) yn
mynd i allu gobeithio ymuno â'r anhrefn?

I danlinellu'r diflastod dylid cofio fod
caniatâd cynllunio eisoes wedi'i roi ar
gyfer 300 mwy o dai ar safle hen waith
glo'r Windsor yn Abertridwr. Ystâd lle
mae eisoes nifer dda o dai a'r man y
lleolir adeilad newydd Ysgol Gymraeg
Ifor Bach.

Mae Caerffili ar fin boddi dan haenen o
goncrid, gan fod cynlluniau i adeiladu o
gwmpas Penrhos ger y Ganolfan Arddio.
Fel sydd hefyd ar Barc Virginia, lle
mae'r clwb golff wedi rhoi'r ffidil yn y to
a gwerthu'r tir i adeiladwyr. A beth nawr
fydd hynt a hanes tir y "tar plant" y tu ôl
i orsaf Caerffili? Nid yn unig yno, ond
beth yw dyfodol yr holl dir gwyrdd sy'n
ymestyn draw at Wern y Domen a
phentref Rhydri?

Bu ymgyrchu dygn yn erbyn Cynllun
Datblygu Lleol (LDP) Cyngor
Bwrdeistref Sirol Caerffili'r llynedd. Fel
canlyniad, tynnwyd y cynllun yn ôl. Ond
nawr mae'n edrych yn debyg ein bod
wedi disgyn o'r badell ffrio i'r tân,
oherwydd byddai LDP call, hirben wedi
sicrhau ymgynghoriad ystyrlon i
warchod ein tiroedd rhag y datblygiadau
hyn.


Ac eto, mae galw am gartrefi ar gyfer
pobol. Ond ar gyfer pwy? Dyw adeiladu
tai drud ddim yn mynd i ddiwallu
anghenion ein trigolion digartref ond, yn
hytrach, maent yn fwy tebygol o ddenu
pobol o'r tu allan i'r ardal. Gyda'r
prinder tai fforddiadwy yma does dim
modd i'r rhai sy'n talu rhent uchel, i
landlordiaid preifat, dorri allan o fagl
todi. A does dim rhaid adeiladu ar
gaeau gwyrdd gan anharddu cefn gwlad.
Mae safleoedd caeau llwydion ar gael.
Hefyd, byddai chwistrelliad o dai
newydd yn fanteisiol i rai o'n cymunedau
i fyny'r cwm. Ond, mae'n debyg fod y
Cynulliad, os nad y cyngor, yn dawnsio i
diwn cyfalafwyr sydd am adeiladu lle
ceir yr elw pennaf. Ymddengys mai'r
arian sy'n cyfrif – nid y bobol!

Posau'r Plant gan Mary Jones

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun yma?



Mae enw DEUDDEG coeden wedi'u cuddio yn y Chwilair. Ble maen nhw?



FFAWYDDEN COLLEN BEDWEN

EIDDEW CELYN CERDDINEN

DERWEN LLWYFEN DRAENEN

MASARNEN PYSGWYDDEN ONNEN

Mae'r atebion ar waelod Colofn y Dysgwyr

Swyddogion yr Urdd yn Sir Caerffili



Rachel Catrin Davies

Swyddog Prosiect Chwaraeon
Caerffili, Merthyr a Torfaen
Ffôn Symudol: 07881 782600



Jack Perkins

Prentis Swyddog Chwaraeon
Caerffili a Torfaen
www.urdd.cymru

Mae'r awyren o Sir Fôn i Gaerdydd yn hedfan dros tŷ ni bob dydd, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bu hi'n fwriad gen i ers talwm fynd arni, felly mi es. Fi a dau o ffrindiau, Clwyd o Ddinbych ac Alan o Bolton. '*Last of the Summer Wine does Biggles*', meddai un o'n gwragedd.

Wn i ddim pam fod cŵn Caer yn greaduriaid mor foreol ond rhaid oedd codi o'u blaenau er mwyn dal yr awyren sy'n gadael am bum munud ar hugain i wyth y bore. Rhaid oedd bod yno erbyn hanner awr wedi chwech. Fe gasglon ni Alan am chwech o Bontcanna (roeddwn i a Clwyd wedi cytuno i gyfieithu iddo wedi cyrraedd Sir Fôn, a'i warchod rhag y Gogs), parcio a mynd i sefyll yn y llinell gofrestru yn fy nillad saffari gorau. Synnais bod cymaint yn y llinell hwyliog hon. O'm blaen roedd Rachel Landeg ar ei ffordd i bwyllgor prifysgolion yn Llandudno ac ambell ŵr busnes go smart; holais i ddim am eu perwyl. Doedd dim angen pasbort, dim ond tystiolaeth mai fi oedd fi. Roedd y *bus pass* yn ddigon.

Dim ond lle i 19 sy ar yr awyren hon gan Eastern Airways; dau beilot a Claire, merch hynaws o Newcastle oedd i'n hebrwng ar y daith. Aeth trwy'r ddefod diogelwch gyda ni ac arlwyio coffi, bisgedi a losin am ddim ar y ffordd; ddim yn waith mawr gan taw rhyw bymtheg o deithwyr oedd ganddi. Roedd acen Gogaidd gan y peilot wrth ein croesawu yn bryder i Alan! Ond ar ein hamser gadawon ni a chododd y Jetstream 41 i'r awyr ar fore hyfryd o glir, gyda'r ddau beiriant yn ein hesgyn i'r entrychion o ryw 12,000 o droedfeddi. Erbyn i ni gyrraedd yr uchder hwn, roedd hi bron yn amser i ni ddisgyn eto; rhyw dri chwarter awr mae'r daith yn ei chymryd ond gallwn weld Cymru yn ei gogoniant islaw yn yr heulwen a cheisiwn adnabod trefi, pentrefi a mynyddoedd. Dydy realiti ddim yn rhoi labeli cyfleus ar bethau fel maen nhw ar Google Earth. Trueni bod cymylau dros Eryri y diwrnod hwnnw ond gallwn weld Tywyn, mwya nefolaidd yn y byd! Roedd ein teithiau

bysyddol wedyn yn ddidrafferth, er bod pob bws, o beth welwn i, yn mynnu galw yn Ysbyty Gwynedd.

Porthmadog a Cricieth yn glir wrth i ni hedfan dros Fae Ceredigion. O fewn dim roedd Pen Llŷn un ochr ac Afon Menai yr ochr arall, ac roedden ni ar y ffordd i lawr. Dim ond dwy awyren y dydd sy'n glanio yn y Fali, y ddwy daith o Gaerdydd, heblaw am jetiau'r RAF, ac felly does yna fawr o rodres yno. Y bwriad oedd dal y bws X4 i Fangor ac ymlaen wedyn i Gaernarfon ac aros noson yn y Black Boy, ond roedd un tric gan bobol Sir Fôn ar ein cyfer, sef rhoi arhosfan bws gyda lloches yn amlwg yn y maes awyr ond un nad yw bysiau yn dod ar ei gyfyl. Gwelsom y bws yn gadael ar hyd y briffordd gyfagos. Grêt! Bu'n rhaid i ni fynd y ffordd arall i Gaergybi wedi sylweddoli ein camsyniad.

Peint prynhawn yn edrych dros y Fenai o'r Anglesey Arms a bwyd bendigedig ac ystafelloedd gwych yng Ngwesty'r Bachgen Du; un o'r gwestai gorau i mi aros ynddo erioed. Mae Caernarfon yn codi calon hen athro Cymraeg fel fi; mae hyd yn oed y drygis yn siarad Cymraeg yno.



Taith yn ôl ar y bws y diwrnod wedyn a gadael am y De am 5.30. Cymylau a glaw trwy'r dydd a gweld dim, ond hei ho, bu hwn yn saffari i'w gofio am £40 a *bus pass*. Ewch. Gallwch roi tic ar eich rhestr fwced wedyn.

Eisiau hansh o hanes?

Peth rhyfedd yw synhwyrau blas ac arogl. Mae'r ddau wedi eu clymu'n agos iawn at ei gilydd, wrth gwrs, fel y tystia pob un ohonom dan annwyd. Ond maent hefyd wedi eu cysylltu'n uniongyrchol gyda rhan sylfaenol o'r ymennydd, a dyna'r rheswm pam fod clywed rhyw arogl, neu flas rhyw fwyd arbennig yn deffro atgofion mor fyw.

Rhyfeddod arall i mi yw'r ffaith bod rhai planhigion wedi cadw eu persawr neu eu blas dros y canrifoedd. Pan dyfai flodau'r fagwyr (*wallflowers*), mae eu persawr yn mynd â fi nôl ar unwaith i ardd 'mamgu – ac fe fyddai ei mamgu hithau wedi 'nabod eu persawr hefyd.

Mae modd tyfu blodau, llysiau a ffrwythau sydd heb newid dim o ran blas, lliw ac ansawdd ers miloedd o flynyddoedd. Rydyn ni wedi ymyrryd dipyn gyda natur er mwyn bridio planhigion sy'n ein siwtio ni'n well, megis y pys pêr a dyfir am eu lliw yn hytrach na'u persawr, neu lysiau a dyfir am eu maint neu eu gallu i wrthsefyll haint. Ond mae modd tyfu blodau a llysiau sydd heb gael eu 'gwella' hefyd, megis pys pêr 'Cupani' a ddisgrifiwyd gan Linnaeus ym 1753 neu ffa 'Aquadulce', a ddisgrifwyd yn fanwl ym 1885.

Ac mae modd modd blasu hanes trwy fwyta ffrwythau hefyd. Os ewch i wefan Ian Sturrock (www.iansturrockandsons.co.uk), fe gewch hanes yr hen fathau o afalau a ddarganfuwyd ganddo yn y gogledd dros y tri deg mlynedd diwethaf, ac a dyfwyd ganddo yn ei erddi ger Bangor. Dechreuodd Ian gymryd diddordeb mewn hen fathau o blanhigion pan yn gweithio ym Mhrifysgol Bangor, a sylweddoli bod mathau anghyffredin o afalau yn tyfu mewn hen erddi gerllaw. Aeth ati i ymchwilio'n

fanylach i'r maes a darganfod bod hanes arbennig i sawl un o'r afalau hyn, megis yr afal coch 'Deimwnt' sy'n deillio o lwyth o afalau a ddarganfuwyd ar y traeth wedi llongddrylliad y llong 'Diamond' ar Sarn Padrig ym 1825.



Efallai'r afal enwocaf a ddarganfuwyd ganddo yw 'Afal Ynys Enlli'. Ym 1998 sylwodd ffrind iddo fod ffrwythau anghyffredin o iach yn tyfu ar hen goeden gnotiog wrth wal bwthyn ar yr ynys. Anfonwyd y ffrwythau i'w harolygu gan arbenigwyr yn y maes, a darganfuwyd eu bod yn unigryw. Aeth Ian ati i gymryd toriadau - ac erbyn heddiw mae'n bosibl prynu coed afalau Ynys Enlli mewn sawl canolfan arddio a chatalog. Pryna i goeden rai blynyddoedd yn ôl, ac ar ôl iddi dyfu'n hapus mewn pot mawr yma yn Ystrad Mynach, cafodd ei thrawsblannu i ardd fy nghefnder yng Nghaerdydd – ac mae hi'n ffynnu yno hefyd! Penderfynais eleni fod angen rhagor o goed afalau hanesyddol arnaf, a dyma fi'n troi at wefan Ian am ysbrydoliaeth - a darganfod iddo ychwanegu at y rhestr o goed ffrwythau sydd ganddo.

A mwy na hynny – mae gan rai o'r afalau hyn gysylltiadau â'n cwm ni! Er mod i'n bwriadu prynu coeden Ynys Enlli arall, rwy'n mawr obeithio ychwanegu coeden Machen at fy mherllan – a choeden St Cecilia hefyd, math a ddarganfuwyd gan Ian Sturrock ym Masaleg.

Mis Tachwedd yw mis plannu coed afalau – beth am blannu rhai o afalau ein cwm ni yn eich gardd, a chael hansh o'r gorffennol yn y dyfodol?

gan Dr Elin Jones

Oeddech hi'n gwybod.....?



Tomos James Moremon

Ein pleser yw cyhoeddi genedigaeth Tomos James Moremon, baban cyntaf i Eleri a James, ŵyr arall i Gwilym ac Eirlys Thomas, Heol Pengam, Ystrad Mynach, a nai a chefnider i deulu Iwan yng Nghaerdydd. Ganed Tomos ar y 15fed o Fehefin. Dymunwn bob bendith i'r teulu ifanc.

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar (Eura Hafwen) Haf Fussell a fu farw ddydd Llun yr 16eg o Hydref yn 91 mlwydd oed. Roedd Haf yn fam i Charles, Liz a James. Roedd hi hefyd yn fam-gu i saith o wyrion ac, ychydig cyn ei marwolaeth, daeth yn hen fam-gu.

Yn enedigol o "Maesgarw" Fforestfach ger Abertawe roedd hi'n nyrw (ymwelydd iechyd) a fu'n briod ag Angus a oedd yn gyfreithiwr.

Cynhelir yr angladd ddydd Llun y 13eg o Dachwedd ym Methel Caerffili am 11:00 ac yn Thornhill am 12:30. Mae croeso i ni ymuno â'r teulu, wedi'r angladd, yng Nghlwb Golff Caerffili.

Grŵp Arlunio Dydd Gwener

Mae arddangosfa gan y grŵp yn Llyfrgell Bedwas rhwng y 24ain o Dachwedd â'r Nadolig.

Bydd rhai o'r lluniau sydd wedi ymddangos yn "Cwmni" i'w gweld yno. Cyfle gwyh, felly, i brynu anrheg Nadolig gwahanol.

(Nodwch fod y llyfrgell ar gau pob dydd Iau.)



Clwb Cerdd Cwm Rhymni
Prynhawn Sadwrn
18fed o Dachwedd

Eleri Llwyd Dafydd (Telyn) Catherine Handley (Ffliwt)

Mozart, Debussy, Fauré a Mervyn Burtch

**Yr Eglwys Fethodistiaid
Lewis St, Ystrad Mynach**

2:30 y.p.
£8 (£7.50 i'r henoed £3 i fyfyrwyr)
Tocynnau wrth y drws

CROESO CYNNES i BAWB!



WRTH AROS RUFUS

Drama Gywaith gan y Cwmni

Ysgol Gyfun Cwm Rhymni,
Safle'r Gwyndy, Caerffili
Nos Fercher
6ed o Ragfyr

8:00

£3

Drwy Raglen Wrth y Drws

"Chwerthin yw'r moddion gorau"

Cofio Jim Criddle



Ychydig wythnosau cyn ei ben-blwydd yn 70 oed, bu farw Jim Criddle. Roedd yn un o bedwar o blant ac yn bolymath o berson gyda chof eang ac ymroddiad llwyr i addysg gydol oes. Yn ei awydd i ddysgu Cymraeg aeth i Nantgwrtheyrn ac yna i Oxford House a chyfarfod â Rhian Heulyn o Synod Inn, Ceredigion. Ymhen y rhawg priododd y ddau a ganwyd iddynt dri phlentyn, sef Betsan, Geraint a Branwen. Roedd Jim bellach yn aelod ymroddedig o'r Blaid Genedlaethol ac yn Gymro o argyhoeddiad.

Gorffennodd dair gradd, a hynny mewn Cemeg, Mathemateg a Ffrangeg. Roedd yn gweithio ar ei ddoethuriaeth ar hanes dinas Casnewydd pan oddiweddwyd ef gan gancr a hawliodd ei fywyd. Bu'n addysgu mewn tair ysgol, sef Sant Teilo a Fitzalan yng Nghaerdydd ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn agosach i'w hoff Drecelyn a'r Coed-duon. Yn ystod ei oes bu'n chwarae rygbi i sawl tîm yng Ngorllewin Gwent, ac hefyd i Brifysgolion Prydain. Roedd yn angerddol o blaid trenau stêm ac heb fawr o amynedd gyda threnau diesel. Byddai'n cerdded cymaint ac y gallai ac wrth ei fodd yn canfasio. Bu'n gynghorydd ar gyngor Y Coed-duon am flynyddoedd ac ymgeisiodd dros Blaid Cymru mewn Etholiadau Cyffredinol. Roedd yn gawr tyner ei wedd ond yn awyddus i osgoi unrhyw amharch at ei wrthwynebwyr gwleidyddol pwy bynnag y bônt.

Cefnogodd yr achos Cristnogol ac Ysgol Sul Gymraeg yn Sant Luc yn Abercarn gyda Rhian, ac roedd yn falch o arddel y ffydd. Cynhaliwyd ei angladd yn y capel hwnnw, chwarter canrif ar ôl angladd ei briod, a man priodas ei ferch. Coffa da ohono.

Y Parchedig Denzil I. John

JOHN JENKINS (SION SIENCYN) 1779-1853

Dyma'r ail yn ein cyfres o draethodau gan ddysgwyr



Roedd Sion Siencyn yn weinidog y Bedyddwyr enwog yn ne Cymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd e'n boblogaidd iawn fel pregethwr a theithiodd trwy Gymru gyfan sawl gwaith yn cyhoeddi

Cristnogaeth, weithiau am fisoedd ac yn teithio cannoedd o filltiroedd.

Cafodd ei eni yn 1779 yn Llangynidr, Sir Frycheiniog, yn fab i Jenkin a Mary

Jenkins. Roedd ei deulu'n dlawd iawn, felly ni allai e fynd i'r ysgol, a phan roedd e'n un deg dau oed, roedd rhaid iddo fe adael ei gartref i weithio ar fferm yn Llansantffraid ger Y Fenni. Pan oedd e'n un deg chwech oed, o dan ddylanwad a chyfarwyddyd ei gyflogwr, dechreuodd e ddysgu darllen ac ysgrifennu.

Aeth e i'r capel yn rheolaidd ac ym mis Tachwedd 1795 cafodd e ei fedyddio a chafodd e ei ordeinio ym 1806. Yn ystod y gwasanaeth hwnnw roedd y gweinidog Christmas Evans yn pregethu a gofynnodd e i Sion Siencyn a hoffai fod yn bregethwr yng Nghapel y Bedyddwyr Hengoed.....

.....Derbyniodd e'r swydd a symudodd i Faesycwmer i fyw ble adeiladodd e ei dŷ 'Maesycwmer House'.

Daeth yn awdur a chyhoeddwr. Un o'i lyfrau mwyaf llwyddiannus oedd 'Y Plas Arian', wedi ei gyhoeddi yn 1811, sef casgliad o nodiadau byrion ar Gristnogaeth.

Mewn cydnabyddiaeth o'i waith ysgrifenedig anrhydeddwyd e gyda gradd D.D. gan Brifysgol Loisberg, Pennsylvania.

Parhaodd e i fyw ym Maesycwmer nes iddo farw yn 1853. Claddwyd e o flaen

drws ffrynt ei annwyl gapel yn Hengoed. Dyma'r arysgrif ar dabled marmor y tu ôl i'r pulpud yn y capel:


Er cof am
Y Parch John Jenkins D.D.
Bugail yr Eglwys hon
a'i changen yn Pengam am
44 o flynyddau
Bu farw Mehefin y 5ed 1853
Yn 73 mlwydd oed'.

Phyllis Pugh

Awst yn Anogia gan Jan Penney

Dewis Clwb Llyfrau *Cwmni y mis'ma* oedd nofel swmpus Gareth F. Williams, "Awst yn Anogia" a enillodd brif wobr Gymraeg Llyfr y Flwyddyn 2015. Mae'r nofel wedi'i lleoli'n bennaf mewn pentref ar Ynys Creta yn ystod yr Ail Ryfel Byd pan oedd y Natsïaid mewn grym yng Ngwlad Groeg. Er taw ffuglen yw hi, mae'n seiliedig ar ddigwyddiadau go iawn ac mae llawer o gymeriadau hanesyddol yn ymddangos ynddi.

Mae'n nofel hir, gyda mwy na 500 o dudalennau, ac mae sawl llinyn stori ynddi, a hefyd ambell bennod allai hyd yn oed sefyll ar ei phen ei hunan. Felly, mae'n anodd gwneud cyfiawnder â hi mewn erthygl fer ac, a dweud y gwir, roedd rhai ohonom yn meddwl fod yr awdur wedi cynnwys gormod! Mae sawl golygfa o erchyllterau rhyfel oedd yn anodd ei darllen ac nid pawb oedd yn fodlon darllen nofel o'r fath, sy'n ddigon teg yn fy marn i. Ond wedi dweud hynny, mae'r awdur wedi creu cymeriadau lliwgar fydd yn aros yn y cof yn hir a mwynhaodd y rhan fwyaf ohonom ei sgrifennu dawnus. Er enghraifft, rydyn ni'n dod i nabod trigolion y pentref, fel y ferch fywiog, Maria a'i theulu, yr athro ifanc Grigori a'r bugeiliaid ar y mynydd, fel Yanni y Chwibanwr, sy'n cefnogi'r *andartes*, y gwrthsafiad lleol. Hefyd rydyn ni'n dilyn hanes yr Almaenwyr, Tobias Jung a'i gariad, Magda, sy'n ceisio rhwystro cynlluniau'r Natsïaid, a dysgu am gefndir y cymeriad mwyaf atgas, y swyddog Natsïaidd, Golo Wolf.



Un cymeriad eithaf cymhleth yw'r bachgen 12 oed, Nikos, sy wedi cael profiadau erchyll yn y gorffennol. Dyw pethau ddim yn ddu a gwyn ac mae'n Almaenwyr drwg ac Almaenwyr da, ynghyd â Groegiaid da a Groegiaid drwg.

Er bod y stori o reidrwydd yn eithaf dwys, mae'r awdur wedi llwyddo i ysgafnhau'r awyrgylch weithiau drwy gynnwys awgrym o'r goruwchnaturiol a ffantasi. Mae sawl merch o'r pentref yn ymwneud â phethau cyfrin, mae'n stori ryfedd am y ddwy fydwraig sy'n honni eu bod yn fôr-forynion ac ar ôl marwolaeth Yanni, mae ei chwibanu'n dal i'w glywed ar y mynydd. Wedi'r holl erchyllterau, mae diwedd y stori'n llawn gobaith am y dyfodol – mae Anogia'n fyw o hyd ac mae Maria'n mynd lan y mynydd i ddod â'i brawd adre.

Beth am ymuno â ni i drafod y nofel nesa, "Dŵr yn yr Afon" gan Heiddwen Tomos? Byddwn ni'n cwrdd am 2 y.p. ar y llawr 1-af yn Llyfrgell Caerffili, ddydd Llun Tachwedd 6ed.



Ysgol y Lawnt, Rhymni

Dreigiau – Siarter Iaith - gan Tomos a Kenzie, Dreigiau Bl.5.

Dydd Llun Medi'r 25ain ymddangosodd llawer iawn o bosteri DREIGIAU o amgylch yr ysgol! Cyngor yr Ysgol oedd wedi gosod y poster i fyny ac roedden nhw yn chwilio am griw o blant allai fod yn 'Ddreigiau'r Lawnt' - plant a oedd eisiau datblygu'r defnydd o Gymraeg yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol hefyd.

Meddylion ni bod hwnna'n siawns ardderchog i ni ddangos beth rydym ni'n gallu gwneud. Felly dydd Gwener yr wythnos honno ysgrifennom ni lythyr at Miss Scott a Chyngor yr Ysgol i esbonio pahan yr oeddem ni eisiau bod yn Ddraig.

Teimlon ni yn angerddol am fod yn Ddraig oherwydd ein bod ni wir eisiau helpu'r ysgol i siarad mwy o Gymraeg- a dweud y gwir - i fod yr ysgol orau am siarad Cymraeg. Byddem ni wrth ein bodd yn clodfori plant y Lawnt am siarad Cymraeg hefyd, a datblygu ein balchder wrth siarad



Cymraeg achos hi yw iaith Cymru ac wrth gwrs yr ysgol.

Fe roddom ni ein llythyron i Gyngor yr Ysgol er mwyn iddynt greu rhestr fer ac yna cyfweld pob ymgeisydd gobeithiol. Am y diwrnodau nesaf, roedd bola pawb yn troi a throi ac yn troi nes i Gyngor yr Ysgol ddweud pwy fyddai'n cael eu cyfweld.

Diwrnod y cyfweliad roedd yna lawer o blant yno a phenderfynom ni nad oedd siawns i ni i gyd fod yn llwyddiannus! Gofynnodd Cadeirydd Cyngor yr Ysgol lawer o gwestiynau i ni, er enghraifft " Pam ydych chi eisiau bod yn Ddraig?" a "Pahan mae siarad Cymraeg yn bwysig i chi?" Roedd rhai o gwestiynau'r Cyngor yn anodd, ond wrth i ni feddwl yn ofalus a siarad o'r galon roedd popeth yn well. Mewn chwinciad roedd popeth drosodd .



Yn ystod gwasanaeth yr ysgol yr wythnos nesaf ac ar ôl oriau maith o bendroni, datgelodd Cyngor yr Ysgol pwy oedd Dreigiau'r Lawnt eleni. Pan glywsom ni ein henwau ni, roeddem yn wên o glust i glust!


STEM

Mae'r disgyblion wrth eu bodd yng nglwb STEM. Cawn gyfle i arbrofi a chreu amrywiaeth o bethau gan gynnwys lamp lafa.



Menter busnes – Caffi Clic a Chlonc

Yn nhymor yr haf sefydlwyd menter busnes gan



ddisgyblion Blwyddyn 6. Penderfynon nhw droi dosbarth gwag i mewn i gaffi. Aethant ati i ddewis dodrefn, gosod y caffi allan ac yna edrych ar fwydlen briodol ar gyfer brecwast. Erbyn hyn, mae'r caffi ar agor bob bore Gwener ac mae'r plant yn gyfrifol am archebu bwyd a gweini. Mae grŵp o blant yn dysgu Cymraeg i oedolion a hefyd mae'r arweinwyr digidol yn dysgu sgiliau technoleg gwybodaeth i'n gwesteion.

Mae holl ddisgyblion Blwyddyn 6 yn rhan o'r fenter. Rydyn ni hefyd wedi amserlenni'r caffi ar gyfer gweddill yr ysgol ac mae pob dosbarth o leiaf unwaith y tymor yn gyfrifol am fenter busnes ac yn gwahodd rhieni a ffrindiau i mewn i fwynhau paned a chlonc.

Gwasanaeth Diolchgarwch a Chasgliad i Fanc Bwyd Rhymini

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn yr ysgol i ddathlu'r cynhaeaf. Diolch i'r plant a'r holl rieni am eu rhoddion o fwyd ar gyfer Banc Bwyd Rhymini. Dyma disgyblion Ysgol y Lawnt yn gofalu bod digon o fwyd i bobl llai ffodus na nhw.



Gŵyl Fedi

Roedd disgyblion, staff a rhieni'n llawn cyffro yn ystod ein Gŵyl Fedi. Bu'r disgyblion yn Dysgu am wledydd a chrefydd o bedwar ban y byd yn yr wythnosau cyn yr ŵyl. Dysgon nhw ddawnsfeydd traddodiadol o wahanol wledydd a'u perfformio o flaen torf o rieni a ffrindiau'r ysgol.

Cyw yn dod â hwyl a hud y Nadolig i Gwm Rhymni!



Mae Cyw a'i ffrindiau yn dod i'r ardal cyn hir fel rhan o daith i ddymuno Nadolig Llawen i blant ar hyd a lled Cymru.

Bydd rhai o gyflwynwyr a chymeriadau hoffus S4C - Huw, Elin, Ben Dant a'i ffrind Cadi, Seren o blaned Asra ac, wrth gwrs, Cyw ei hun - yn dod i'r Coed Duon ar yr 28ain o Dachwedd ac maen nhw'n eich gwahodd chi i ymuno â nhw yn yr hwyl!

Bydd dwy sioe yn cael eu cynnal yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Coed Duon, ar yr 28ain o Dachwedd, ac mae'r sioeau yn dechrau am 10.15 neu 1.45.

I brynu eich tocyn, dilynwch y ddolen ar wefan s4c.cymru/cyw

Mae'n bosibl archebu tocynnau ar gyfer grwpiau os ydych chi'n dymuno trefnu trip ar gyfer eich hysgol, mudiad meithrin neu grŵp chwarae. Mae croeso mawr i bawb yn Sioe Cyw!

Bydd ffi bwcio o £1.00 ar bob archeb sy'n cael ei gwneud dros y ffôn neu ar-lein. Cysylltwch â Galeri ar 01286 685 222 os cewch unrhyw anawsterau.

Mae Sioe Nadolig Cyw yn boblogaidd iawn bob blwyddyn a'r tocynnau yn gwerthu'n gyflym, felly peidiwch ag oedi!



CYSTADLEUAETH! CYFLE I ENNILL CD NEWYDD Y Welsh Whisperer!

Am gyfle i ennill copi o'r CD newydd sbon gan y 'Mansel Davies Man' ei hun
'Dyn y Diesel Coch'
atebwch y cwestiwn anodd yma;

Pa liw ydy diesel coch?

Atebion at welshwhisperer@live.com
neu: (Swyddfa'r Gogledd)
4 Pantglas, Bethesda, Bangor, Gwynedd,
Cymru, LL57 3BG

Gwnïo? Gwau? - Dyma'r Siop i Chi!



Pleser cyhoeddi i un arall o gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni fentro i mewn i fyd masnach, y tro hwn gan agor siop newydd. Dyma'r pumed tro i "Cwmni" allu cyflwyno erthygl yn adrodd hanes menter a busnes gan rhai sy'n medru'r Gymraeg.

Cyn mynd ymlaen i'r Ysgol Gyfun mynychodd Fiona Bishop, a'i brawd John, Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod. Yna ymgymerodd â nifer o swyddi gyda sefydliadau fel, Panasonic, Venture Parks, Call Centre a bu hefyd yn rheolwr siop cyn treulio cyfnod yn Swyddog Gyrfaedd dros Gyrfa Cymru, yn gweithio gyda disgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Ond, hefyd, bu wrthi'n gwella'i chymwysterau personol, drwy ddal i astudio wedi gadael yr ysgol. a bellach mae wedi ennill gradd meistr B.M.A. mewn gweinyddiaeth busnes drwy ei hymdrechion.



Yna, gwelodd Fiona gyfle i brynu siop Shirley's Fabrics yng nghanolfan siopa Ystrad Mynach. Pan fyddwch yn chwilio am y siop fe'ch gwelwch hi yn rhif 21 Heol Penallta. Wrth ddod i mewn i'r pentref o'r de gwelir y siop, sy'n ymhyfrydu yn y teitl "Fab Fabrics", ar ochr chwith yr heol unffordd, a hi yw'r siop olaf ar y chwith cyn y tai sydd yn arwain at Swyddfa'r Post. Mae'r siop wrth yr arosfan bysiau ochr draw i'r tai newydd ger yr Arcêd.

Braf gweld bod yna ddiwygiad yn nileit pobol i wnïo. A dyna pam mae tu mewn i'r siop hon yn Ogof Aladdin o ddeunyddiau gwnïo, gwau, *crochet* ac ati, yn wllân, cotwm, deunydd trims, botymau, llenni, llenni nets a detholiad dirifedi o eitemau ar gyfer bodloni gofynion y sawl sydd am fentro ar greffttau o'r fath.

Ond nid dim ond gwerthu nwyddau y mae Fiona yn ei wneud. Wrth baratoi'r erthygl hon gwelwyd mor brysur oedd y fusnes, gan fod bron pob gwerthiant yn golygu trafod, sgwrsio a chynghori. Cymaint felly, fel bod cynlluniau i gynnal sesiynau hyfforddi yn yr amryw wyddorau hyn. Hefyd, cynllunir paratoi pecynnau anrhegu i'w gwerthu adeg y Nadolig.



Mae'r fusnes newydd yma wedi'i chynnwys ar dudalen 8 y Ffônlyfr newydd .
Y manylion cyswllt eraill yw: Facebook:
@FabFabrics, Ffôn: 07964 822865,
e-bost: fabfabrics99@gmail.com

Canlyniadau Eisteddfod y Cymoedd 2017

Dywedodd “Eisteddfodau Cymru” bod mwy o gystadlu wedi bod yn Eisteddfod y Cymoedd 2016 nag mewn unrhyw eisteddfod arall yng Nghymru!!!!!!!

Unawd Bl 2-4	Taia Jones	Meleri Godfrey	Skye Morgans
Unawd Bl 5-6	Mikaela Pekka	Lilia Burge	Tegan Hopper
Llefaru Bl 2-4	Geraint Barnes	Olivia Grace Morris	Gruffydd Williams
Llefaru Bl 5-6	Nia Honey	Awen Davies	Awena David
Llefaru I Ddysgwyr Bl 6 ac iau	Keira Lacey		
Unawd offerynnol Bl 6 ac iau	Siriol Alun	Kayleigh Lewis	Siriol Alun Ysgol Gymraeg Caerffili Canadram
Parti lleisiol Bl 6 ac iau	Ysgol Llwyneclyn	Ysgol y Castell	
Côr Bl 6 ac iau	Ysgol Llwyneclyn	Ysgol Gymraeg Caerffili	Ysgol y Castell
Dawnsio Disgo Unigol Bl 6 ac iau	Awen Davies	Lili Evans	
Dawnsio Grwp Gwerin Bl 6 ac iau	Ysgol y Castell		
Dawnsio Grwp Disgo Bl 6 ac iau	Grwp 2 Ysgol Caerffili	Grwp 1 Ysgol Caerffili	
Perfformiad mwyaf addawol cynradd	Mikaela Pekka - Unawd Bl 5-6		
Unawd Bl 7-9	Mali Rhys	Kai Fish	Iestyn Jones / Morgan Fish
Unawd Bl 10-13	John Liddington	Tegan Theobald	Carys Lloyd Kai Fish / Anais Brimble
Llefaru unigol oedran uwchradd	Iestyn Jones	Harriet Wright Nicholas Iestyn Jones / Elen Morlais	Morus Jones
Dawnsio Gwerin unigol uwchradd	Daniel Jones		
Dawnsio Disgo Unigol Uwchradd	Kai Fish	Neve Caswell	Caitlin Jones
Dawnsio Grwp Unrhyw gyfrwng - Uwchradd	Bro Taf	Grŵp Penny	
Unawd offerynnol Uwchradd	Nick Francis	Aisha Palmer	Megan Thomas
Perfformiad mwyaf addawol uwchradd	Daniel Jones - Dawns Gwerin Unigol Uwchradd		
Unawd lleisiol agored	Nigel Gaen		
Unawd canu emyn	Rhys Griffiths	Lynwen John	Iwan Gruffydd
Unawd sioe gerdd agored	Rhys Griffiths	Sam Williams	Iestyn Jones
Llefaru unigol agored	Seren Haf Macmillan		
Grwp llefaru agored	Lleisiau Rhymni Osian, Gavin, Huw ac Iwan		
2awd/3awd/4awd cerdd dant			
2awd/3awd/4awd cloccio	Iestyn a Morus Jones		

Parti neu gôr cerdd dant	Parti'r Efail		
Parti / côr gwerin agored	Parti'r Efail	Bechgyn Bro Taf	
Grwp Dawnsio agored	Dawnswyr Nantgarw		
Côr Agored	Côr CF1	Côr Caerdydd	Côr Cwm Ni
Tlws Dawnsio Trwy'r Cwm	Dawnswyr Nantgarw		
Llenyddiaeth cynradd	Alice Todd	Mili Lewis	Alice Todd
Llenyddiaeth uwchradd	Alaw Fflur Jones	Joanna Zajac	Ceri Anne Gatehouse
Limerig	John Lloyd		
Cerdd	Gruffydd Gwyn	Englyn	Gwyn M Lloyd
Cyfres o luniau - Perthyn	Ffion West	Sam Cheesman	Rhian Williams
Darn o Gelf - Y Dyfodol	Kaylee-Beth Murphy	Morganna Davies	Ella Phillips

Teyrnged i Helen Greenwood

“Môn Mam Cymru,” medden nhw,
Ac un sy’n fam i ni gyd
Yw Helen, ddaeth o’r gogledd pell
I geisio “gwella’i byd”.

Pan welodd ogoniant Glyn Ebwy
Fe waeddodd hi yn groch,
“Lyndon! Mae’r lle ‘ma lawer yn well na
Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrn
drobwllllantisiliogogoch.”

Meddai Ann Hughes wrthi, “yn bendant
Mi fydd dy chwarter canrif nesaf yn bleser.
Mae gen i swydd sy’n rhodd o’r nef
Swyddog Datblygu Gwent – rhan amser.”

Ond chlywodd hi ddim y “rhan amser”
Pan ddechreuodd ar y gwaith.
Mi fyddai’n dechrau’n y bore bach
A dal ati am oriau maith.

Tecstio, ffonio, llythyru,
Cyfarfodydd, llungopio.
Am un y bore – mae’r golau dal ‘mlan!
Mae Helen yn e bostio!

Eisteddfod Islwyn, Llancaiach Fawr,
Llangrannog, Glan-llyn – sawl taith,
Nant Gwrtheyrn ‘da dysgwyr lu -
O’i rhodd – yn caffael iaith.

Dy rodd i holl ddisgyblion Gwent-
All neb ei mesur hi.
Ond gwyddwn mae’r iaith yn ffynnu nawr
Yng nghalonau plant di-ri.

Môn Mam Cymru – mae gennym neges,
Peidiwch bod yn ffôl.
Nid swydd “dros dro” yw gweithio ‘Ngwent-
‘Dych chi ddim yn cael hi nôl!

Rhodri Harries

Colofn Dafydd Islwyn


Y Seremoni Goroni gyntaf i mi ei gweld yn fyw oedd yn y Genedlaethol, Ynys Môn, Llangefni 1957. Coronwyd Dyfnallt Morgan, Bangor, am ei ddrama fydryddol fer mewn tair golygfa, “Rhwing Dau” - drama sy wedi ei lleoli yn Hong Kong ar ddiwrnod o Awst 1955. Thema'r ddrama yw'r ymwybyddiaeth neu'r diffyg ymwybyddiaeth sydd gan unigolyn o berthyn i genedl benodol. Mae'n fater o iaith, arferion a thraddodiadau. Am yr ail flwyddyn yn olynol y cynhaliwyd cystadleuaeth Drama Fydryddol am y Goron. Ym 1956 yn Aberdâr ataliwyd y Goron. Yr agosaf at ei hennill oedd George Fisher, Llangefni, ond brodor o Fargod. Chwaraewyd ei ddrama, “Merch yw Medusa”, y flwyddyn ddilynol yn y Genedlaethol yn ei dre fabwysiedig. Bedair blynedd ynghynt yn y Rhyl roedd Saunders Lewis, un o dri beirniad cystadleuaeth y Goron, o blaid Coroni Dyfnallt Morgan am ei bryddest, “Y Llen”. Chwe brawddeg yn unig yw ei feirniadaeth. Ni chytunodd ei ddau gyd-feirniad, ei wfftio fwy neu lai wnaethon nhw.” Gweledigaeth o ddiwedd gwareiddiad Cymraeg mewn cwm diwydiannol sy yn y bryddest yn nhafodiaith De-Ddwyrain Morgannwg. Y llen haearn rhwng yr hen fywyd Cymreig a'r bywyd di-Gymraeg sy'n ei ddiddori.” Mae hi'n bryddest o bwys llenyddol yn ôl Hywel Teifi. Cafodd gam yn Y Rhyl.

Ganwyd Dyfnallt Morgan yn Nowlais yn 1919 ac ymfalchïai yn y fagwraeth a gafodd yno. Yn 2003 cyhoeddwyd, dan olygyddiaeth ei fab Tomos, “Rhywbeth i'w Ddweud” - detholiad o waith ei dad a fu farw yn 1994. Yn 1967 cyhoeddwyd ei unig gyfrol o gerddi “Y Llen a Myfyrdodau Eraill”. Teimlaf ei bod yn hen bryd agor y llen ar ei waith. Cwpled clo Iolo Wyn Williams iddo ydy,

Y gŵr mwyn â'r grym mewnol
Mor dlawd ein rhawg ar ei ôl.

Y degfed o Fehefin 1919 y ganwyd yn Rhosllannerchrugog, Wrecsam, yr actor Gwilym Meredith Edwards, adnabyddus yn ei ddydd, a ymddangosodd ar lwyfan, mewn ffilmiau ac ar deledu Yn y theatr Gymraeg ef ydoedd Angau yn “Y Claf Diglefyd” a Malachi Jones yn “Pobol yr Ymylon” gan Idwal Jones.

Ymddangosodd mewn ugeiniau o ffilmiau, gan gynnwys: “A Run for your Money” gyda'i gyd-Gymro Hugh Griffith; “The Cruel Sea” a “Dunkirk” gyda



John Mills. Yn y ffilm hon mynnodd ddweud geiriau olaf milwr o Gymru, wrth iddo farw mewn perllan, yn y Gymraeg. Gwelwyd ef ar y teledu yn actio yn “Amlyn ac Amig” gan Saunders Lewis; “Dinas” gan W. S. Jones ac yn “Dixon of Dock Green” a llawer mwy. Gwelais ef yn actio yn y ffilm, “The Long Arm” (1956), llawer ohoni wedi'i thynnu ym Mhen y Gwryd, Eryri. Prif seren y ffilm oedd ei ffrind Jack Hawkins. Meddai Meredith Edwards, “Cefais dipyn o'i gwmni a chael sgysiau hir, ac yntau'n holi am Gymru a'r Gymraeg a minnau'n gwneud fy ngorau i ddangos iddo fod gwahaniaeth rhwng Cymro a Sais.” Ef oedd Alff Boswell yn y ffilm, “Tân ar y Comin”, yn seiliedig ar stori T. Llew Jones.

“Ydyw, mae Meredith Edwards nid yn unig yn actor gwych ond yn genedlaetholwr brwd ac yn aelod selog o Blaid Cymru”, disgrifiwyd ef ym Mhortreadau'r Faner. “Gallwn siarad yn eithaf effeithiol a chefnogi eraill a chanfasio”, disgrifiodd ei hun yn ei hunangofiant, “Ar Lwyfan Amser” yn 1977. Fel llawer o genedlaetholwyr pybyr eraill daeth i gynorthwyo yn Is-Etholiad pwysig Caerffili ar y 18fed o Orffennaf 1968. Un noson fe aeth criw o ganfaswyr i fyni i Dirphil. Arhoswyd ar sgwâr y pentref a dechreuodd Meredith Edwards annerch drwy gorn siarad. Aeth y si ar led fod yna “film star” yn Nhirphil!! Swynwyd y gwagedd gan ei anerchiad agos atynt. Tynnwyd posteri'r blaid Lafur o'r ffenestri.

Bu farw Meredith Edwards ar yr 8fed o Chwefror 1999.

Colofn y Dysgwyr gan Ann Lewis

Roedd mis Hydref yn stormus iawn ar adegau a'r dail yn disgyn yn gyflym o'r coed. Gwnaeth hyn i mi feddwl am gerdd enwog iawn gan Crwys : **Dysgub y Dail**.

Mae'r bardd yn disgrifio hen ddyn yn gweithio'n galed i frwsio neu 'sgubo'r dail sy wedi disgyn ar y stryd. Mae e'n edrych yn hen iawn a dydy e ddim yn iach. Mae'r bardd yn meddwl ei fod e fel hen ddeilen wedi disgyn ei hun, felly mae un ddeilen grin yn casglu un arall. Mae'r dail wedi marw ac mae'n debyg y bydd yr hen ddyn wedi marw hefyd erbyn y flwyddyn nesaf. Cerdd drist ydy hi ond mae'n rhoi darlun byw iawn i ni.

Dysgub y Dail

Gwynt yr hydref ruai neithiwr,
Crynai'r dref i'w sail,
 Ac mae'r henwr wrthi'n fore'n
'Sgubo'r dail.

Yn ei blyg uwchben ei sgubell
 Cerdd yn grwm a blin,
Megis deilen grin yn ymlid
 Deilen grin.

Pentwr arall yna gorffwys
Ennyd ar yn ail;
 Hydref arall a bydd yntau
 Gyda'r dail.




deilen/dail : leaf/leaves	disgyn: fall	deilen grin : a withered leaf	wedi marw: dead
darlun byw : a vivid picture	rhuo : roar	crynai'r dref i'w sail : the town shook to it's foundations	
'sgubo : sweep	sgubell : broom	yn ei blyg/yn grwm : bent	blin:weary
megis : just like	ymlid : pursue	pentwr : heap	gorffwys : rest ennyd : moment ar yn ail : alternate

Gyda llaw, maen nhw'n dweud mai ar stryd fawr Rhymni y gwelodd Crwys yr hen ŵr.

Atebion i'r Posau

Sawl un gawsoch chi'n gywir?



Dr William Price gan y Golygydd



Llongyfarchiadau i Ymddiriedolaeth Cadwraeth (Castell) Rhiw Perrau am y weledigaeth yn sefydlu cofeb deilwng i un o feibion mwyaf galluog a dylanwadol Cymru. Wrth gyflwyno'r seremoni ddadorchuddio dywedodd cadeirydd yr Ymddiriedolaeth,

Pat Jones-Jenkins, ei bod yn hen bryd i ni yn yr ardal hon gydnabod gwaith a bywyd un sydd wedi'i glodfori mewn mannau eraill. Cofier mai yn ardal Caerffili y ganed y Doctor William Price, fel Evan James, er y caiff y ddau yn aml eu cysylltu ag ardal Pontypridd. Ac yn y Gymraeg yr agorodd Pat ei hanerchiad, yn bennaf fel cydnabyddiaeth o'r ffaith nad oedd y Doctor Price yn siarad gair o Saesneg tan ei fod yn ddeg oed.

Dadorchuddiwyd y plac yn ffurfiol gan Faer Cyngor Sir Caerffili, y Cynghorydd John Bevan, yn neuadd gymunedol Rhydri. Gwnaed hyn yn Rhydri gan fod anhawster ynglyn â gosod y plac ym man geni Doctor Price. Mae'n hysbys mai yn Fferm Tŷ'n y Coed Cae y'i ganed mewn ardal a adwaenir erbyn hyn fel Waterloo. Methwyd ag achub yr adeilad, a fu am gyfnod yn dafarn y Green Meadow, cyn ei ddymchwel rai blynnyddoedd yn ôl.

Aeth y Doctor, a fedyddiwyd yn Eglwys Sant Iago yn Rhydri, i'r ysgol ym Machen yn ddeg oed gan ddysgu popeth oedd ar gynnig yno erbyn ei fod yn dair ar ddeg a hanner. Yna cwblhaodd y cwrs hyfforddi fod yn feddyg mewn prin un flwyddyn! Diddorol oedd deall iddo fwrw'i brentisiaeth feddygol gyda'r Doctor Evan Williams, Caerffili, oedd yn ŵyr i neb llai na William Edwards y gweinidog a'r adeiladydd pontydd.

Cafwyd cyflwyniad difyr iawn gan y cyfaill Brian Davies, cyn-guradur Amgueddfa Pontypridd, am fywyd William Price, Un, fel Gwenynen Gwent, a welodd bob degawd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (1800-1893). Ac yn un a ddaeth yn dad pan yn ei wythdegau! Mae'r hanes amdano yn llosgi gweddillion ei fab yn hysbys iawn wrth iddo osod cynsail ar gyfer amlosgi.

Yn ystod yr adeg y bu yn byw ym Mhontypridd a Llantrisant y daeth yn fwyaf enwog gan mai yn Llantrisant y perfformiodd yr amlosgiad cyntaf ac ym Mhontypridd yr aeth i'r afael â sefydlu gwasanaeth iechyd arloesol. Ei ddadl oedd na ddylai pobol geisio talu am driniaeth feddygol pan oeddynt yn sâl. Perswadiodd weithwyr Brown Lennox (archfarchnad Sainsbury sydd ar safle'r gwaith erbyn hyn) i dalu ceiniog yr wythnos tra'u bod yn iach a byddent wedyn yn gallu derbyn triniaeth feddygol yn rhad ac am ddim pe trewid hwy gan salwch.

Roedd hefyd yn Siartydd, a bu'n rhaid iddo ddianc i Ffrainc rhag ei erlynwyr pan aeth pethau o chwith yng Nghasnewydd yn 1839. Llwyddodd i ddianc drwy wisgo fel menyw!

Adeiladodd "Camera Obscura" uwchben Pontypridd i ddenu twristiaid a hynny er mwyn codi arian i ddarparu addysg rad i blant Pontypridd. Ac roedd hefyd yn bleidiol dros yr iaith Gymraeg, nid yn unig yng Nghymru ond hefyd mewn llys ym Mryste!

Mae arddangosfa yn seiliedig ar waith Doctor Price yng Nghanolfan Gymunedol Rhydri a'r gobaith nawr yw caiff y plac

gymryd ei briod le mor agos a bo modd i safle Fferm Tŷ'n y Coed Cae yn Waterloo.



mentercaerffili.cymru

morganroberts@mentercaerffili.cymru 01443820913

Canadram
Y Memo, Trecelyn NP114FH
Nos Iau
5:00-6:30pm
£3 yr wythnos
I blant oedran 6+
Eleni byddem yn cystadiu yn y gan actoll!
Cysylltwch am rhagor o fanylion

Dawns Di-ri
Clwb Bowlio Islwyn NP121JR
Nos Fawrth
5:00-5:45pm Oedran 4-7
6:00-7:00 Oedran 7-11
£3 yr wythnos
Dechrau Nos Fawrth Hydref 3 2017
Cysylltwch am rhagor o fanylion

Theatr Ieuenctid
Sefydliad Y Glowyr Coed Duon
Nos Fawrth
6:00-7:30pm
£3.50 yr wythnos
I ieuenctid oedran 12+
Cyfle i ddysgu sgiliau theatr a perfformio.
Cysylltwch am rhagor o fanylion

mentercaerffili.cymru
Miri Meithrin
(i blant o dan 5)
Pryd?
Tachwedd 3 2017
10:30-12:00
Ble?
Neuadd Coleg Cross Keys
Beth?
Dewch draw i ganu a dawnio gyda Heini, lliwio, hefyd amser stori ac ardal chwarae meddal. Te a choffi i oedolion.
Mynediad £1
01443820913 morganroberts@mentercaerffili.cymru

Trefnu Blodau
Dechrau Hydref 9, 2017
18:30-20:30
£5 y sesiwn
Dosbarth bob pythefnos
Ystafell Gwaith Coed,
Safle Y Gwyndy,
Cwm Rhymni, Caerffili
(Mynedfa nos drwy'r ganolfan chwaraeon)

Cwrs Coginio
i oedolion
£5 y sesiwn
Dechrau Nos Lun, Hydref 30
18:30 - 20:30
Bob pythefnos
Ystafell Coginio
Safle Y Gwyndy, Caerffili
(Mynedfa drwy'r ganolfan chwaraeon)

Taith Siopa Nadolig
2017
Menter Caerffili
Birmingham
Tachwedd 23
£12

Ffair Nadolig
2017
Menter Caerffili
yn
Llancaiach Fawr
Rhagfyr 2
11:00-3:00
AM DDIM FREE ENTRY
Grotto Sion Corn Stondinau anrhegion
Ceirw Creu Torch Nadolig
Perfformiadau ysgolion Celf a chrefft
Bwyd a diod A llawer mwy...
Martyn Geraint

Crefft Nadolig
2017
Menter Caerffili
yn
Swyddfa Menter Caerffili,
Suite 1,
Parc St Margaret's
Aberbargoed CF810FW
Rhagfyr 5 a 12
£10
Ymunwch a ni i greu torch defnydd,
o dan arweiniad Rhiannon Tucker
o gymni Nonnies Minatures.
£10 am y ddwy sesiwn.

Clwb Darllen Cwm Ni

Llawr Cyntaf
Llyfrgell Newydd Caerffili
 2:00 o'r gloch

Tachwedd 6ed **Dŵr yn yr Afon**
 Rhagfyr 4ydd **Abermandraw**
 Ionawr 8fed **Rhannu Ambarel**
 Chwefror 5ed **Dan Ei Adain**
 Mawrth 5ed **Y Pla**
 Ebrill 9fed **Gwales**

Cyswllt
janpenney@aol.com
Croeso Cynnes i Bawb



01443 879396

Teithiau Clwb Cerdded / Walking routes

10:00—12:00



- **Hydref 11 - Draethen** – Cwrdd wrth maes parcio Hollybush Inn NP10 8GB
October 11– Draethen - Meet at the Hollybush Inn Car Park NP10 8GB
- **Hydref 18 - Argoed/Coed Duon** - Cwrdd ym maes parcio gyferbyn a Chris Waite NP12 1DD
Hydref 18– Argoed/Blackwood - Meet in the car park opposite Chris Waite NP12 1DD
- **Hydref 25 - Bedlinog/Fochriw** - Cwrdd ym maes parcio Canolfan ddring Bedlinog CF46 6RD
Hydref 25 – Bedlinog/Fochriw – Meet at the Summit climbing centre CF46 6RD.
- **Tachwedd 1 - Parc Penallta** - Cwrdd ym maes parcio ger canolfan Addysg CF82 7GN
November 1 - Penallta Park– Meet at the education centre CF82 7GN
- **Tachwedd 8 - Llanbradach/Mynydd Dimlaeth** - Cwrdd ym maes parcio ger Caffi Saveria CF83 8JZ
November 8 - Llanbradach/Mynydd Dimlaeth - Meet in the car park next to Saveria Café CF83 8JZ
- **Tachwedd 15 - Llwybrau Fan Caerffili** - Maes Parcio Isaf Llwybrau Fan CF83 3DB
November 15 - Van Road Trails- Meet at the lower car park Van Road Trails CF83 3DB
- **22 Tachwedd - Cyfarfod Cynllunio - Swyddfa Menter Caerffili**
*22 Tachwedd - Planning Meeting - Menter Caerffili Office
 Suite 1, Parc St Margaret's, Aberbargod, CF81 9FW*

***Bydd angen gwisgo esgidiau cerdded addas ar gyfer y teithiau.**
You will need to wear appropriate walking boots for the walks.




CHWARAEON YR URDD

Cysylltwch â fi i gofrestru
Contact me to book

Gweithgareddau Chwaraeon Cymunedol
 Community Sport Activities

Rachel Davies:
rachel@urdd.org 07881 782600

Enw/Name	Lleoliad/ Venue	Dydd/ Day	Amser/ Oedran/ Pris Time/age/ Price	Disgrifiad/ Description
Pêl-droed a Rygbi Bach Little Rugby and Football	Neuadd Fach Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Pontygwindy Rd, CF83 3HG	Llun Monday	5:15-6 Meithrin, Derbyn & BI 1 Nursery, Reception & Yr 1 £3	Dysgu sgiliau rygbi a phêl droed gyda Jack <i>Learn new football and rugby skills with Jack</i>
CLWB DAWNS Dance Club	Canolfan Hamdden Tredegar Newydd New Tredegar Lesuire Centre NP24 6XF	Llun Monday	5:15-6 Meithrin i F1 1 Nursery to Yr1 £3	Dewch i ddysgu gwahanol fathau o ddawns! Come and learn different styles of dance! Caneuon Disney, Candelas, Little Mix a mwy! Songs by Disney, Candelas, Little Mix and more!
PLANTOS HEINI	Neuadd Chwaraeon/ Sports Hall Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Pontygwindy Rd, CF83 3HG	Mawrth Tuesday	4:30-5:15 Meithrin, Derbyn & BI 1 Nursery, Reception & Yr 1 £3	Dysgu sgiliau chwaraeon craidd gyda elfen o gymnasteg <i>Learn sporting skills with an element of gymnastics</i>
HOCI Hockey	Neuadd Chwaraeon/ Sports Hall Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Pontygwindy Rd, CF83 3HG	Mawrth Tuesday	5:15-6:00 Bhwyddyn 3-6/ School Years 3-6 £3	Dewch i ddysgu a datblygu sgiliau hoci, ar gael i pob gallu <i>Learn and develop your hockey skills, open to all abilities (Offer yn cael eu darparu/ Equipment is provided)</i>
PLANTOS HEINI	Neuadd Dawns/ Dance Hall Ysgol Gyfun Cwm Rhymni Heol Gelli Haf NP12 3JQ	Mercher Wednesday	5:15-6 Derbyn, BI 1 & BI2 Reception, Yr 1 & Yr2 £3	Dysgu sgiliau chwaraeon craidd gyda elfen o gymnasteg <i>Learn sporting skills with an element of gymnastics</i>




Ymunwch â'n cymuned o gemwyr youtube trwy wneud sylwadau ar ein fideos ac awgrymu pa fideos yr hoffech weld ni'n chwarae a thrafod.

Mae sianel youtube 'gemau retro' yn canolbwyntio ar gemau hen gonsols fel y Nintendo, Entertainment System, Super Nintendo, Sega Master System a'r Sega Mega Drive – gyda phlant 10-11 mlwydd oed.

Mae sianel youtube 'gemau fideo' yn chwarae pob math o gemau fideo, mae hyn i gyd ar gyfer ieuenctid oed 11-18

Mae 'yn chwarae' yn sianel gemau fideo oedolion sydd yn cwrdd yn fisol i gymdeithasu a chreu fideos ar gyfer y sianel.



Eisiau ymarfer eich Cymraeg?

2ail ddydd Mawrth y mis

Llyfrgell Caerffili ar yr 2ail lawr

14 Tachwedd am 2 o'r gloch

"Straeon Tafarn" gan Dewi Pws

Bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig bob dydd

Llun o 10.30 Bore coffi yn y Malcolm Uphill

(Wetherspoons), Caerffili

bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch

JanPenney@aol.com

Croeso i Bawb



Dillad Gwaith * Cit Hamdden * Gwisg Ysgol

JansanWear

Uned G, Ystad Ddiwydiannol Bowen, Aberbargoed, CF819EP

Llun y Mis gan Chris Davies



O ddiddordeb i'n darllenwyr yw'r ffaith fod Tomos Sparnon yn rhan o arddangosfa a fydd yn Y Galeri, Caerffili tan y 18fed o Dachwedd. Bydd yr arddangosfa hefyd yn cynnwys gwaith Mark Youd a Dylan Andrews.

Gwnaeth Tomos argraff fawr gyda'i waith yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llancaeath Fawr yn 2015. Tomos, hefyd, enillodd cystadleuaeth "Open Art" Y Galeri eleni. Mae Tomos bellach yn dod i ddiwedd ei gwrs arlunio tair mlynedd yn Ngholeg Celf Prifysgol Abertawe.

Gobeithiwn gyflwyno mwy o waith yr artist talentog hwn yn y dyfodol.